



Holl Aelodau'r Cynulliad

02 Medi 2016

Annwyl Aelod o'r Cynulliad

Rwy'n ysgrifennu atoch am yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus i Brosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd.

Cafodd cyfarfod cyn yr ymchwiliad ei gynnal ar 18 Gorffennaf yn y Lysaght Institute yng Nghasnewydd. Os hoffech weld nodiadau'r cyfarfod hwnnw, ewch i wefan yr Ymchwiliad trwy glicio ar y ddolen ganlynol:

<http://m4-newport.persona-pi.com/>

Mae yna daflen fach sy'n nodi prif bwyntiau proses yr Ymchwiliad i'w gweld ar y ddolen: <http://gov.wales/docs/det/publications/160815-public-inquiry-what-you-need-to-know-cy.pdf>

Rwyf wedi gofyn i'n swyddogion anfon copi caled hefyd i'ch swyddfa.

Os ydych chi neu un o'ch etholwyr am gymryd rhan yn yr Ymchwiliad, holwch y Swyddog Rhaglennu, Joanna Vincent. Gallwch gysylltu â Joanna gan ddefnyddio'r manylion isod:

Ffôn: 01403 217799  
Ffôn Symudol: 07483 133975  
E-bost: [JoannaVincent@personaassociates.co.uk](mailto:JoannaVincent@personaassociates.co.uk)

Yn yr ymchwiliad, bydd arolygwyr annibynnol yn clywed y dystiolaeth yn erbyn ac o blaid y cynnig. Byddan nhw'n ystyried unrhyw syniadau hefyd all gael eu cynnig gan wrthwynebwyr, gan gynnwys y llwybr glas. Bydd argymhellion yr arolygydd yn llywio'r penderfyniad terfynol p'un ai i fwrw ymlaen â'r prosiect neu beidio.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**  
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.